Y GRAWYS 2

**GENESIS 17:1-7, 15-16; SALM 22:23-31;
RHUFEINIAID 4:13-25; MARC 8:31-38**

● **Gweddi agoriadol**

Dduw cariad,
bydd di'r cariad a ganfyddwn yma
i'w rannu gyda chyfaill a dieithryn.

Dduw heddwch,
bydd di'r heddwch a ganfyddwn yma
i'w rannu gyda chyfaill a dieithryn.

Dduw llawenydd,
bydd di'r llawenydd a ganfyddwn yma
i'w rannu gyda chyfaill a dieithryn.

● **Moliant**

Greawdwr bydysawd
y tu hwnt i ddychymyg,
eto yn ddigon agos
i glywed
sibrwd gweddi
ac i estyn
llaw agored –
dyma ein Duw.

Unwn â'r côr nefol
i ddatgan yn llawen
bod y rhai sy'n ceisio
yn cael
a'r rhai sy'n canfod
yn profi
y fath gariad a gras,
y tu hwnt i ddychymyg.
Dyma ein Duw.

● **Cyffes**
Cerddaist o'th wirfodd
y llwybr a osodwyd ar dy gyfer,
camu yn fwriadol
am Jerwsalem
a'r dyrfa
a'th groesawodd
un foment ac yna gweiddi,
'Croeshoelier!'

Maddau i ni
sy'n oedi
ar y ffordd,
ein cam yn byrhau
a'n ffydd yn gloff
wrth i ni fwrw golwg
tua'r groes.
Caniatâ i ni ddewrder
a dyfalbarhad
yn ein teithio gyda thi,
achos allwn ni mo'i wneud
yn ein nerth ein hunain.

● Diolch

Trwy ffydd gwyddom
iti ein creu
gyda bwriad,
ein caru
yn ddiamod,
ein galw
i'th ddilyn,
maddau i ni
pan siomwn di,
coda ni
pan faglwn,
a bendithia ni
yn dy wasanaeth.

Derbyn ddiolch ein calon
bod dy addewidion
wastad yn wir,
ac y gellir dibynnu
ar dy ffyddlondeb
yn dragwyddol.